CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL
Cadeirydd: Gethin Pyrs
Nos Lun Mai 9fed 2022 am 7.30 y.h.

# Cofnodion

1. **Ymddiheuriadau**: Cyng. Gwynfor Roberts, Cyng. Sirol Gwennol Ellis
2. **Presennol:** Cyng. Dewi Evans, Gari Jones, Gerallt Jones, Alun Owen, Gethin Pyrs, Edmund Rees ac Enid Williams (Clerc)
3. **Còd Ymddygiad:** Datgan Cysylltiad neu ddiddordeb personol mewn un neu fwy o eitemau'r Agenda – GBJ yn datgan cysylltiad neu ddiddordeb personol
4. **Cofnodion mis Ebrill** cynigiwyd yn gywir gan GBJ gydag ER yn eilio.
5. **Materion y Codi o'r Cofnodion:**
   a) Dim
6. **Gohebiaeth:**
   6.1. CBSC – wedi derbyn y taliad cyntaf o'r presept £1534.00
7. **Monitro'r Gyllideb:**
   i) Edrychwyd dros y gyllideb a chafwyd popeth mewn trefn.
   ii) Edrychwyd dros y fantolen banc a'i derbyn yn gyflawn.
8. **Talu Anfonebau:**
   8.1. Hill & Roberts (cyfrifydd) cynigiodd GBJ gydag ER yn eilio talu'r anfoneb o £110.00 + TAW £22.00 = **£132.00** gyda siec rhif **100367**. (S151)
   8.2. Iona Edwards (archwilydd mewnol) £55.00 + TAW £11.00 = **£66.00** cynigiodd ER Gyda GBJ yn eilio talu'r anfoneb gyda siec rhif **100369.(**S151)
   8.3. Capel Bethel – (llogi ystafell 8 gwaith) £80.00 cynigiodd ER gydag AO yn eilio talu gyda siec rhif **100370.** (S133)
9. **Mabwysiadu'r Datganiadau Cyfrifyddu 2021-22:**
   a) Datganiad Llywodraethu Blynyddol cynigiodd ER gyda GBJ yn eilio a phawb yn gytûn fod pwyntiau 1-9 wedi eu cwblhau.
   b) Datganiad Cyfrifyddu 2021/2022 archwiliwyd y fantolen yn fanwl gyda GBJ yn cynnig a GJ yn eilio yna cytunwyd pawb fod y fantolen yn gywir ac yn gyflawn.
10. **Mabwysiadu'r rheolau:**
    i) Rheoliadau Sefydlog (wedi derbyn)
    ii) Rheoliadau Ariannol (wedi derbyn)
    iii) Rheoliadau Mewnol (trafod yn y cyfarfod nesa)
    vi) Polisi Ymateb i Gwynion (wedi derbyn)
    v) Asesiad Risg (trafod yn y cyfarfod nesa)
    vi) Còd Ymddygiad (Cymraeg)
    vii) Còd Ymddygiad (Saesneg) (wedi derbyn)
11. **Cais Cynllunio:**
    11.1. Cyfeirnod 0/49620
    Ymgeisydd G B Jones
    Cynllun Adeiladu pwll slyri a'r holl waith cysylltiedig
    Safle Fron Bella, Pentrefoelas
    Cefnogwyd y cais.
12. **Gair gan y Cyng. Sirol Gwenno Ellis:** Nid oedd y Cyng. Sirol yn bresennol.
13. **Unrhyw fater arall:**
    13.1. Angen archebu blodau i'r pentref .
14. **Dyddiad y cyfarfod nesaf** i'w drefnu.

**Arwyddwyd** ________________________ **Cadeirydd** **Dyddiad**___________________